| | |
|---|---|
| **Adrodd i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **26 Tachwedd 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Ariannol** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2013/14. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno ynghylch y Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Pwrpas yr adroddiad yw darparu diweddariad ar sefyllfa ariannol gyfredol y Cyngor a chael cytundeb mewn egwyddor i ddarparu benthyciad tymor byr i Gyngor Tref Llangollen.

**3. Beth yw'r argymhellion?**

Bod aelodau yn nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

I gytuno mewn egwyddor i drefnu benthyciad i Gyngor Tref Llangollen i gynorthwyo gyda llif arian i gefnogi buddsoddiad cyfalaf ac i ddirprwyo awdurdod i Bennaeth Cyllid ac Asedau i symud y trefniant yn ei flaen pan fydd angen.

**4. Manylion am yr Adroddiad**

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2013/14 (**Atodiad 1**). Cyllideb net y Cyngor yw £192m. Ar ddiwedd mis Hydref, rhagwelir tanwariant ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol o £763k (£1,194k y mis diwethaf) sy'n cynrychioli amrywiad o 0.60%.

Mae **Atodiad 2** yr adroddiad yn dangos y cynnydd hyd yn hyn yn erbyn yr arbedion a amlygwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2012/13. Cytunwyd ar darged arbed o £3.061 miliwn ar gyfer y flwyddyn a hyd yn hyn mae 67% wedi'u cyflawni.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb refeniw a chyfalaf y cyngor a darparu strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni'n sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. **Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae rhagolygon gwasanaethau cefnogi wedi'u nodi isod, os yw'n angenrheidiol:

**Cynllunio Busnes a Pherfformiad –** Fel yr adroddwyd y mis diwethaf, mae'r gwasanaeth yn rhagamcanu tanwariant o £40k. Er nad oes symud yn yr adroddiad y mis hwn, mae'r rhagamcan yn cynnwys dyfynbris ar gyfer buddsoddi i ddigideiddio'r cofnodion sy'n yr archif. Bydd newid amser y gwaith hwn yn effeithio ar yr alldro a ragwelir a bydd yn cael ei adrodd yn yr adroddiadau yn y dyfodol.

**Gwasanaethau Priffyrdd a'r Amgylchedd –** y rhagolygon ar hyn o bryd yw gorwariant o £237k, cynnydd o £88k o'r hyn yr adroddwyd y mis diwethaf. Gobeithir y bydd y gorwariant net yn gostwng pan fydd effaith llawn ailstrwythuro'r gwasanaeth yn cael ei ddatrys. Y prif bwyntiau ydi:

- Mae pwysau'n parhau gyda Chludiant Ysgol yn ymwneud â nifer y dyddiau ysgol yn 2013/14 (effaith un tro sydd wedi'i ddiwallu drwy ddefnyddio tanwariant un tro) a chynnydd mewn galw. Gorwariodd y gwasanaeth o £178k yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac mae'r pwysau cyllidebol hyn wedi parhau eleni.
- Mar incwm parcio yn is o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol gan achosi pwysau o £108k. Mae hyn wedi'i osod yn rhannol oherwydd y dyraniad o £40k o danwariant y llynedd. Y prif feysydd sy'n cael eu heffeithio yw y Rhyl a Phrestatyn, Prestatyn yn bennaf oherwydd argaeledd parcio am ddim ar gael yn y parc manwerthu a bydd yn bwysau fydd yn ailadrodd ar gyfer y gwasanaeth.

**Gwasanaethau Plant a Theuluoedd** - Y tanwariant a ragwelir yw £311k y mis hwn ond efallai y bydd hyn yn cynyddu ychydig os yw'r galw cyfredol ar gyfer lleoliadau yn parhau'n sefydlog am weddill y flwyddyn ariannol. Mae'r tanwariant cyfredol yn eithrio'r hyn a gytunwyd yn flaenorol o £250k sy'n cael ei osod o'r neilltu ar gyfer cronfa wrth gefn Plant ag Anableddau.

**Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden –** ar hyn o bryd yn dangos tanwariant cyffredinol bychan o £7k (cyfartal y mis diwethaf). Mae'r tanwariant yn bennaf o ganlyniad i gynlluniau'n cael eu gosod ymlaen llaw er mwyn dechrau diwallu targedau arbedion y flwyddyn nesaf ar gyfer yr Adran. Tybir bod datblygiad Hamdden newydd Rhuthun yn diwallu'r targedau aelodau dros fisoedd y gaeaf ac mae'r dangosyddion cynnar yn galonogol iawn.

**Trawsffurfio TGCh / Busnes –** yn rhagweld cyllideb gytbwys er bod tybiaethau ynglŷn â chostau trwydded Cytundeb Microsoft ac uwchraddio caledwedd bwrdd gwaith TGCh y Cyngor fel rhan o strategaeth TGCh y Cyngor. Ar hyn o bryd bwriedir y bydd y costau hyn yn cael ei hariannu o gyfuniad o gyllidebau refeniw TGCh cyfredol, rhai cyfraniadau gan wasanaethau eraill a rhai eitemau gwariant yn cael eu cyfalafu.

**Gwella Ysgolion a Chynhwysiant –** fel yr adroddwyd y mis diwethaf, mae’r gwaith manwl sydd ei angen i ddarparu rhagamcan cadarn o Leoedd Tu Allan i’r Sir ac Adenillion wedi’i gwblhau. Mae’r sefyllfa gytbwys a ragwelwyd ar hyn o bryd ar gyfer Gwella Ysgolion yn cynnwys rhagdybiaeth y bydd tanwariant yn 2013/14 o £251k o Leoedd Tu Allan i’r Sir ac Adenillion yn cael eu gosod mewn cronfa wrth gefn er mwyn darparu arian at raid ar gyfer unrhyw gynnydd mewn costau yn y dyfodol, gan alluogi rhyddhau £200k effeithlonrwydd cyllideb sail yn 2014/15.

**Ysgolion –** ar ddiwedd mis Hydref y rhagamcan ar gyfer balansau ysgolion yw £2.955 miliwn, sy’n symudiad positif o £85k ar falansau a ddygwyd ymlaen o 2012/13, (£2.870m). Mae’r cyngor yn parhau i weithio gyda dwy ysgol sydd yn cael trafferthion ariannol. Mae gan y ddwy ysgol gynlluniau adfer ac yn gweithio’n galed tuag at y targedau a bennwyd yn y cynlluniau hyn. Mae’r Gyllideb nad yw’n ddirprwyedig yn rhagweld tanwariant o £106k ar hyn o bryd.

**Cyllidebau Corfforaethol –** wedi’u cynnwys yn incwm ychwanegol y mis hwn o £152k o ad-daliadau taliadau a wnaed o dan Gynllun Lleihau Carbon. Cynigir gosod £100k o’r neilltu i fuddsoddi mewn cynlluniau effeithlonrwydd ynni newydd. Mae mesurau a wnaed i wella effeithlonrwydd wedi cynorthwyo i sicrhau y gall y cyngor ddod â'r CRS i ben a llwyddo i gyflawni arbedion cyllideb parhaol y flwyddyn nesaf.

Mae Cyngor Tref Llangollen yn buddsoddi mewn gwelliannau mawr i'r Bont Gadwyni yn y dref. Mae'r gwaith wedi’i gyllido gan grant ond ni fydd y grant yn cynnwys TAW. Bydd Cyngor y Dref yn gallu adennill elfen TAW'r gwaith ond mae’n debyg y bydd gwahaniaeth amser byr rhwng talu'r anfoneb am y gwaith ac adennill y TAW drwy’r broses arferol. Bydd gwerth y TAW tua £20k a gwnaed cais i'r cyngor i roi benthyciad tymor byr ar gyfer y cyfnod hwnnw. Mae darparu'r benthyciad yn ddull syml, gyda risg isel i gefnogi prosiect adfywio cymuned sylweddol. Os cytunir mewn egwyddor, bydd amodau’r benthyciad yn cael eu cytuno gan dîm cyfreithiol y cyngor.

Cariwyd cronfeydd wrth gefn y **Cynllun Corfforaethol** o £10.3m ymlaen i 2013/14, gan adael gofyniad arian o tua £11.7m i ddarparu’r Cynllun. Roedd cyllideb 2013/14 yn clustnodi adnoddau cyllideb newydd o £600k i’w dyrannu i Gronfa Wrth Gefn y Cynllun Corfforaethol a gwnaed rhagdybiaethau y byddai o leiaf £1.3m o’r adnoddau a nodwyd yn flaenorol yn cael eu trosglwyddo i ariannu’r Cynllun Corfforaethol petai’r amgylchiadau’n caniatáu hynny.

Mae cyllideb y **Cyfrif Refeniw Tai** (CRT) hefyd wedi’i chynnwys yn Atodiad 1 er hwylustod, ond mae adnoddau CRT yn gyllid ar wahân i brif adnoddau’r cyngor, a gellir ond eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau tai'r cyngor. Mae'r sefyllfa refeniw diweddaraf yn rhagamcanu £7k o ostyngiad yn y balansau ar ddiwedd y flwyddyn, sy’n welliant o £95k ar ragamcan y gyllideb. Mae’r Cynllun Cyfalaf Tai yn unol â’r targed i wario £8.1m a dylai Safon Ansawdd Tai Cymru fod wedi’i gyflawni erbyn diwedd 2013/14.

Mae crynodeb o'r **Cynllun Cyfalaf** wedi'i amgáu fel **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £42.2m ac mae'r gwariant hyd at ddiwedd mis Hydref yn £13.3 miliwn. Hefyd wedi'i gynnwys yn Atodiad 3 mae'r gwariant arfaethedig o £6.6m ar y **Cynllun Corfforaethol.** Mae **Atodiad 4** yn cynnwys y diweddaraf ar y prosiectau cyfalaf mawr sydd o fewn y Cynllun Cyfalaf ar gyfer eleni.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

Cyflwynwyd crynodeb o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'r Cyngor ym mis Chwefror 2013.

## 8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Cynhaliwyd ymarferion herio gwasanaeth gyda phob pennaeth gwasanaeth ac roedd cynrychiolwyr o'r pwyllgor archwilio a'r Cabinet yn rhan o'r ymarferion hyn. Cynhaliwyd gweithdai Cynllun Corfforaethol a'r Gyllideb gydag aelodau ym mis Medi, Tachwedd a Rhagfyr. Cymeradwyodd y Cyngor y cynllun cyfalaf yn dilyn craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac wedi i'r cabinet ei argymell.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'n bwysig bod gwasanaethau yn parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben yn ystod y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun sefyllfa ariannol y tymor canolig, yn enwedig oherwydd cyfraddau gostyngiadau cyllidebau sydd eu hangen yn y ddwy flynedd nesaf.
Ar ddiwedd mis Hydref, roedd cyfanswm benthyciadau'r cyngor yn £132.458m ar raddfa gyfartalog o 5.79%. Roedd balansau buddsoddi yn £25.5m ar gyfradd gyfartalog o 0.81%.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi'i wynebu a bydd methu â chyflawni'r strategaeth gyllidol y cytunwyd arni yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a thros y blynyddoedd ariannol sydd i ddod. Bydd monitro a rheoli cyllidebol effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

Mae'r CRT yn gwneud buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wella'r stoc tai ac yn defnyddio benthyciadau a grantiau i ariannu'r gwaith. Rhaid i unrhyw fenthyciad fod yn fforddiadwy ac mae gwaith monitro rheolaidd a chymeradwyaeth flynyddol ac asesiad hyfywedd o Gynllun Busnes y Stoc Tai yn sicrhau mai felly y mae.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Gofynnir i awdurdodau lleol dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn gywir.